# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cyngor Sir Powys**

**Cyngor Sir Powys**
**Neuadd y Sir**
**Llandrindod**
**LD1 5LG**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

23/05/2024

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Cyngor Sir Powys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Powys |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16.01.2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

### Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl sy'n defnyddio'r holl wahanol wasanaethau yn cael gofal a chymorth cyson gan dimau o staff gofal sy'n cael eu harwain yn dda gan eu rheolwyr. Mae diwylliant cadarnhaol ar waith ym mhob gwasanaeth, sy'n golygu bod y rheolwyr a'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda. Mae gan y bobl lais, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ac maent yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael.

Mae'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael eu cynllunio gan gynnwys y bobl ac mewn ffordd sydd wedi'i theilwra at eu canlyniadau personol. Mae cymorth effeithiol o ansawdd uchel gan y timau rheoli yn golygu bod y staff gofal wedi cael eu hyfforddi'n dda a'u bod wedi'u cymell i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl.

Mae trefniadau clir ac effeithiol iawn ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys tîm rheoli profiadol a sefydlog i oruchwylio a monitro pob gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi creu diwylliant o fod yn agored ac yn onest am yr hyn y gall ei ddarparu. Mae hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl. Caiff ansawdd y gwasanaeth ei adolygu'n rheolaidd a rhoddir ystyriaeth i safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran sut yr hoffent i'w hanghenion cymorth gael eu diwallu. Cânt eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol. Mae cymorth ar gael i wneud penderfyniadau i'r unigolion hynny sydd ei angen. Gallant gael cymorth gan weithwyr gofal, aelodau o'u teulu neu wasanaethau eirioli. Cânt eu hannog i weithio tuag at nodau personol gan dîm o staff gofal ymroddedig a phroffesiynol, sy'n meddu ar wybodaeth ardderchog am anghenion, dewisiadau a dyheadau unigol, a dealltwriaeth ohonynt. Mae'r unigolyn cyfrifol yn uchel ei gymhelliant ac yn awyddus i wneud gwelliannau parhaus i'r gwasanaethau ac i ganlyniadau'r bobl. Mae'n cynnig cyfleoedd i roi adborth, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd ag unigolion. Mae gwybodaeth am yr hyn y gall y gwasanaeth ei ddarparu ar gael mewn fformatau addas. Mae'r ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dywedodd y bobl wrthym fod y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn helpu i'w cadw mor iach â phosibl ac yn gwella eu llesiant. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, ac mae'r staff gofal yn eu dilyn, er mwyn iddynt wybod pa gymorth sydd ei angen. Mae cofnodion yn dangos bod cymorth yn cael ei roi er mwyn i'r bobl gael gafael ar wasanaethau iechyd mewn modd amserol. Mae trafodaethau â'r bobl yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi'r gydberthynas sydd ganddynt â'r staff gofal. Cânt eu disgrifio fel unigolion proffesiynol a neilltuol. Roedd yr enghreifftiau o ryngweithio a welsom yn ddymunol ac yn hwyliog. Gellir dibynnu ar y gwasanaeth i helpu'r bobl i deimlo'n sicr ac yn ddiogel.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gwybod pwy y dylent roi gwybod iddo os byddant yn poeni am lesiant unigolyn. Mae'r cyfleoedd hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant diogelu, ac mae polisïau ar waith i arwain eu hymarfer. Mae'r arferion recriwtio a'r cynlluniau personol manwl yn helpu i hyrwyddo diogelwch.

Os bydd ei angen, mae cymorth ar gael i'r bobl reoli eu tenantiaethau. Maent yn dewis yr hyn y maent am ei gael yn eu cartref ac yn cael cymorth i wneud yn siŵr eu bod yn cadw'n ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael gan bob un o Wasanaethau Cymorth Cartref Cyngor Sir Powys yn fawr. Mae'r gwasanaethau hynod effeithiol yn helpu unigolion i gyflawni eu nodau boed hynny'n symud i fyw'n annibynnol, adennill eu llawn botensial ar ôl cyfnod o salwch neu anaf, neu ddarparu'r cymorth cywir er mwyn i'r bobl aros yn eu cartref eu hunain. Mae'r sylwadau yn cynnwys "*excellent service, improves independence and confidence*," "*very responsive service*," "*amazing, wonderful service*" a "*the service is a blessing*." Mae'r staff gofal yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig i wneud y gorau y gallant i ddarparu'r cymorth cywir. Caiff diwylliant cadarnhaol y gwasanaeth ei adlewyrchu yn ein trafodaethau â'r bobl a'u cynrychiolwyr sy'n dweud wrthym eu bod yn gwybod ymlaen llaw pwy sy'n dod i roi cymorth iddynt, a bod y staff gofal bob amser yn cyrraedd yn brydlon. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r system rhestr gweithio electronig, sy'n golygu nad yw'r bobl bellach yn methu galwadau. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth cyson a dibynadwy hwn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Caiff y staff gofal eu disgrifio fel unigolion proffesiynol ond sydd hefyd yn llawn hiwmor. Mae'r sylwadau yn cynnwys "*excellent attitude*," "*cannot fault the staff*," "*brilliant*" a "*they are all wonderful."*

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r darparwr yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael eu dylunio gan gynnwys y bobl a'u bod wedi'u teilwra mewn ffordd sy'n diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw ar draws pob gwasanaeth fod y staff bob amser yn gofyn iddynt sut yr hoffent gael eu gofal a'u cymorth. Rhoddir ystyriaeth i'w dymuniadau personol, eu dewisiadau a'u dyheadau yn ystod pob cam, o'r asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth i'r adolygiadau rheolaidd, er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau personol yn eu helpu gyflawni eu nodau o hyd. Mae'r ddogfennaeth a welwyd o safon uchel, yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth glir i'r staff gofal ei dilyn. Mae cynlluniau rheoli risg ar waith i annog y bobl i gymryd risgiau cadarnhaol.

Caiff y bobl eu cefnogi i aros mor iach â phosibl. Mae gan y staff gofal wybodaeth dda iawn am anghenion iechyd yr unigolion a sut yr hoffent gael cymorth. Mae'r ddogfennaeth yn fanwl a chaiff hyfforddiant ei ddarparu a'i adolygu i adlewyrchu newidiadau mewn anghenion gofal. Mae hyn yn golygu, cyn belled ag y bo'n bosibl, bydd y gofal a'r cymorth yn parhau'n gyson. Gwneir cais am gymorth meddygol yn gyflym lle y bo angen. Mae

systemau ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rhoi fel y'u rhagnodwyd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant a chaiff eu cymhwysedd i barhau i roi meddyginiaeth yn ddiogel ei asesu'n rheolaidd. Cwblheir archwiliadau o'r cofnodion er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw wallau yn gyflym ac ymdrin â nhw. Adolygwyd y polisi meddyginiaethau ar y cyd â chydweithwyr iechyd ac mae'n aros am gymeradwyaeth cyn ei gyflwyno i'r staff.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi sicrhau bod systemau rhagorol ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth er mwyn ysgogi gwelliannau. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi creu diwylliant hynod effeithiol lle mae unigolion a'r timau o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae cofnodion yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r bobl a'r staff gofal sy'n gysylltiedig â phob gwasanaeth yn rheolaidd. Caiff eu safbwyntiau eu hystyried bob amser. Cafodd hyn ei gadarnhau yn ein sgyrsiau yn ystod yr arolygiad. Mae systemau ar waith i sicrhau bod pob tîm o staff yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r gwasanaeth sy'n helpu i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis o bob maes gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff sy'n cael arweiniad da ac sy'n cael cymorth rheolaidd i ddatblygu eu sgiliau yn barhaus ac i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Mae cofnodion yn dangos bod y staff gofal ym mhob gwasanaeth yn cael cyfarfodydd un i un â'u rheolwyr llinell a'u bod yn cael arfarniad blynyddol o'u gwaith. Gwnaethant ddweud wrthym fod y cydbwysedd rhwng eu bywyd a'u gwaith yn dda. Mae'r rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus iawn ac yn cefnogi eu timau o staff. Mae'r sylwadau yn cynnwys *“brilliant,” “amazing”* a *“I am lucky to have a great team of carers who care.”* Yn eu tro, gwnaethant ganmol y cymorth cyson a gânt gan y rheolwyr yn y sefydliad. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y sector gofal drwy fynd i fforymau a digwyddiadau eraill i'w alluogi i ddarparu cymorth cynhwysfawr i'r timau. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod yr unigolyn cyfrifol bob amser yn hawdd mynd ato a'i fod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt iddynt. Gwelsom gydberthnasau da iawn rhwng y tîm rheoli a'r unigolyn cyfrifol a oedd yn gyfeillgar, ond yn broffesiynol iawn hefyd. Mae'n amlwg bod y cymorth cynhwysfawr a roddir i'r rheolwyr a'r staff gofal yn helpu i greu diwylliant lle mae pob gwasanaeth yn anelu'n barhaus at ddarparu canlyniadau o ansawdd uchel i'r bobl.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff sy'n cael cymorth priodol ac yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy raglen hyfforddiant reolaidd, a chadarnhawyd hyn gan y

staff. Mae'r prosesau recriwtio sydd ar waith yn dangos na fydd unigolion yn dechrau gweithio hyd nes y bydd yr holl wiriadau gofynnol wedi'u cynnal. Mae'r rhaglen sefydlu a'r trefniadau ar gyfer arsylwi ar ymarfer yn golygu eu bod yn cael cymorth ac yn teimlo'n hyderus cyn darparu gofal a chymorth ar eu pen eu hunain. Mae swyddi gwag ar gyfer staff gofal ym mhob gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r darparwr wrthi'n ceisio dod o hyd i ffyrdd i wella'r prosesau recriwtio yn barhaus ym mhob rhan o'r sector. Mae'n cydweithio â sefydliadau eraill i hyrwyddo'r proffesiwn gofal. Mae aelodau presennol o'r staff yn cymryd rhan wrth ddatblygu fideos sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill yn y sector gofal er mwyn eu rhannu ag ysgolion ym Mhowys. Mae hyn yn helpu i godi proffil y sector gofal ymhlith pobl iau, gan anelu at wella cyfraddau recriwtio ym mhob rhan o'r sector.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Mae methiannau yn y system rhestr gweithio electronig sy'n golygu nad yw rhai o'r bobl yn cael y galwadau gofal a neilltuwyd iddynt. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi